TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Dyddiad cyhoeddi: 22 Rhagfyr 2020

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch Cais Rhyddid Gwybodaeth. Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Gofynnoch am y wybodaeth ganlynol:

"Pa gynllun pensiwn sydd ar gael i staff Trafnidiaeth Cymru?"

Os nad yw'n gynllun llywodraeth, a oes cynlluniau i symud tuag at gynllun llywodraeth yn y dyfodol neu gynllun unigol ar gyfer Trafnidiaeth Cymru?"

Ar ôl adolygu'ch cwestiynau, gallwn ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

Mae Trafnidiaeth Cymru (yr is-gwmni sydd ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru) yn darparu cynllun pensiwn gweithlu drwy Nest. Mae Nest yn gynllun pensiwn gweithle a sefydlwyd gan y llywodraeth, sy'n helpu miliynau i fwynhau gwell ymddeoliad. Mae hyn ar waith ar hyn o bryd ar gyfer gweithwyr newydd a chyfredol sy'n ymuno â Trafnidiaeth Cymru. Dyma'r unig gynllun sydd ar gael i'n gweithwyr ar hyn o bryd, ac nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i symud i gynllun gwahanol.

Mae manylion y cynllun pensiwn sydd ar gael i'r rhai a gyflogir gan Wasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru (ym mherchnogaeth KeolisAmey Operations, gweithredwyr y Fasnachfraint Cymru a'r Gororau) wedi'i amlinellu o fewn y Cytundeb Grant Partner Datblygu Gweithredol yn Atodlen 16 (tudalennau 864-871). Mae'r wybodaeth hon ar gael am ddim ar-lein fel a ganlyn: REDACTED ODP Grant Agreement clean final 20181221_1.pdf (trc.cymru). Mae nifer fechan o gydweithwyr a arferai gael eu cyflogi gan Wasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru wedi'u hymrestru o hyd ar y cynllun pensiwn hwn fel y cytunwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o fudd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru